# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 09/02/11

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd Huw Edwards, (Cadeirydd)

**Aelodau Cyngor Gwynedd :** Y Cynghorwyr Stephen Churchman a Pat Larsen.

**Cristnogion a chrefyddau eraill:** Mrs Ruth Davies (Undeb Bedyddwyr Cymru), Mr Wyn Myles Meredith (Yr Eglwys Fethodistaidd), Mr Gwyn Hefin Jones (Eglwys Bresbyteraidd Cymru).

**Athrawon:** Mr Noel Dyer, (UCAC), Miss Miriam Williams (NAS/UWT).

**Swyddogion:** Mr Ken Robinson (Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG), Miss Bethan James (Ymgynghorydd Dyniaethau), Mrs Glynda O'Brien (Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Selwyn Griffiths, Parchedig Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru), Mrs Alwen Watkins (ASCL) a Mrs Leusa Jones (Athrawes Ymgynghorol Rhan Amser CYNNAL).

**1. GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Mr Noel Dyer.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2010 fel rhai cywir.

**4. <u>MONITRO ADDYSG GREFYDDOL AC ADDOLI AR Y CYD</u>**

**Cyflwynwyd:**

**(a)** Gwybodaeth ac eglurhad gan yr Ymgynghorydd Dyniaethau o drefniadau Hunan Arfarniad a gwblheir gan ysgolion yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

Esboniodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau, yn wyneb y ffaith na fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd, y byddai CYSAG yn cyflawni ei gyfrifoldeb statudol drwy wahodd ysgolion i rannu eu Hunan Arfarniadau o Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd gyda'r Aelodau. Tynnwyd sylw'r Aelodau at y ffurflen engreifftiol oedd ger bron ac yn benodol at y cwestiynau allweddol a ofynnir sef:

(a) Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol
(b) Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol
(c) Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd.

Nodwyd bod Mr Keith Parry, Swyddog Gwella Ansawdd Addysg, yn ymgymryd a gwaith o ddiweddaru'r polisi addoli ar y cyd a Mr Ken Robinson, Swyddog Addysg Cynorthwyol Dros Dro (Clerc CYSAG) yn edrych ar ansawdd a safonau ysgolion ar Addysg Grefyddol. Nodwyd ymhellach bod croeso i Aelodau gysylltu â hwy gydag unrhyw ymholiadau yn hyn o beth.

Teimlai'r Ymgynghorydd Dyniaethau bod y drefn hunan arfarnu wedi gwreiddio'n dda iawn eisoes yng Ngwynedd a bod Penaethiaid yn barod iawn i rannu gwybodaeth gyda CYSAG.

(b) Gan Aelod ei fod o'r farn bod hunan arfarniadau yn arf defnyddiol yn ddarostyngedig bod canllawiau ar gael i fesur y canlyniadau.

Mewn ymateb, esboniodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau bod gan ESTYN ganllawiau o arferion da mewn Addysg Grefyddol ynghyd âg amlinelliad o beth yw safonau rhagorol.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(b)** Llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Mr Rheinallt Thomas ar ran Eglwys Presbyteraidd Cymru, yn holi beth ydoedd bwriadau CYSAG ar gyfer monitro Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd yn wyneb y newidiadau fel amlinellir yn (a) uchod.

**Penderfynwyd: Bod y cyflwyniad a dderbyniwyd gan yr Ymgynghorydd Dyniaethau yn (a) uchod yn ymateb ymholiad yr Eglwys Bresbyteraidd sef bydd y drefn yn parhau o Benaethiaid yn cyflwyno Hunan Arfarniadau ar y ddarpariaeth Addysg Grefyddol yn eu hysgolion i CYSAG yn ystod y flwyddyn y bydd ESTYN yn eu harolygu.**

## 5. CYFLWYNIAD – ADDYSG GREFYDDOL AR LAWR Y DOSBARTH

Derbyniwyd cyflwyniad, ar ffurf sleidiau, gan yr Ymgynghorydd Dyniaethau ar themau a ddarparwyd gan wahanol ysgolion ar gyfer Addysg Grefyddol ar lawr y dosbarth megis edrych ar grefydd yn yr ardal leol. Cafwyd blas o'r math o waith a wneir gan ysgolion mewn ymdrin â chwestiynau allweddol, archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol, a mynegi ymatebion personol.

Gwelwyd engreifftiau a fframwaith yng nghyswllt archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol o'r cyfle i ddisgyblion grwydro strydoedd i ganfod tystiolaeth o ddaliadau crefyddol yr ardal megis ymchwilio mannau penodol drwy ymweld ag addoldai, cofebau, hysbysfyrddau, edrych yn y papurau lleol, a.y.b. Cyfeiriwyd at dri cwestiwn a ofynnir gan ddisgyblion un ysgol i ymateb i'r uchod sef:

- Beth mae disgyblion yn wybod am grefydd yn barod
- Beth maent eisiau wybod
- Sut y gallent ddysgu

Gwelwyd hefyd engreifftiau o waith ysgol drwy ymholiadau i adnabod nodweddion allweddol yr Eglwys leol gan roddi cyfle i'r disgyblion holi'r Ficer ac aelodau'r Eglwys am rinweddau a chyfrifoldebau, fel man cychwyn ar ffurf holiadur. Adeiladwyd ar y gwaith

hwn drwy i'r disgyblion edrych ar symbolau crefyddol a pharatoi hysbyseb i benodi Ficer newydd ac fe rydd hyn gyswllt iddynt â'r byd gwaith.

Yng nghyd-destun mynegi ymatebion personol, yn deillio o ymweliadau â mannau crefyddol, fe rydd gyfle i'r disgyblion greu a dylunio capeli/eglwysi eu hunain a phob un ohonynt yn gallu cynnal sgwrs estynedig am eu profiadau.

**Penderfynwyd: Derbyn, nodi a diolch i'r Ymgynghorydd Dyniaethau am y cyflwyniad diddorol ac i weld ffrwyth gwaith ardderchog yr ysgolion a'r disgyblion.**

## 6. GŴYL DATHLU ADDYSG GREFYDDOL 2011

**Cyflwynwyd:**

**(a)** Er gwybodaeth, geiriau a cherddoriaeth Hafan Ffydd a gyfansoddwyd gan Pwyll ap Sion, Barry Jones a Tania ap Sion.

Yn dilyn gwrando ar y gerddoriaeth ac ymuno yn y gân, mynegodd y pwyllgor eu dymuniad i gyfleu llongyfarchiadau a diolch i'r tri uchod am y gân a oedd yn addas yn nhyb sawl Aelod ar gyfer pob oedran ac yn dôn afaelgar dros ben.

**(b)** Er gwybodaeth, taflen yn cynnig syniadau ar gyfer CYSAGau Cymru i'w galluogi i gyfrannu yn nathliad Gwyl Addysg Grefyddol ym mis Mawrth eleni.

**Adroddwyd:** Gan yr Ymgynghorydd Dyniaethau bod y daflen eisoes wedi eu hanfon i ysgolion cynradd ac uwchradd fel rhan o'u bwletin wythnosol.

Gofynnwyd am syniadau gan Aelodau CYSAG ac fe awgrymodd Aelod ar ran y Bedwyddwyr am gynnal "Drws Agored" sef yng Nghapel Peniel, Bangor, gan wahodd disgyblion i weld y bedyddfaen, a.y.b.

**Penderfynwyd: (a) Gofyn i Glerc CYSAG longyfarch Pwyll ap Sion, Barry Jones a Tania ap Sion am eu gwaith yn cyfansoddi'r gan "Hafan Ffydd".**

**(b) Derbyn, nodi a diolch am y syniad yn (b) uchod.**

## 7. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU

Cyflwynwyd

(i) Cofnodion drafft cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2010 yng Nghaerffili.

**Adroddwyd:** Gan yr Ymgynghorydd Dyniaethau fel un a fynychodd y cyfarfod uchod y cafwyd cyflwyniad diddorol gan Ian Morgan ar y grid cenedlaethol ar gyfer dysgu Addysg Grefyddol. Cyfeiriodd hefyd at y gweithgareddau a gynhelir yn ystod dathliad Gwyl Addysg Grefyddol a thynnwyd sylw'n benodol at y ffaith bod un ysgol yng Ngwynedd yn barod i gymryd rhan yn y prosiect Atgyfnerthu. I gloi, cyfeiriodd at y wefan "Face to Faith" a oedd yn galluogi disgyblion o wahanol ffydd i gysylltu â'i gilydd ac i ddysgu oddi wrth ei gilydd.

(ii) Gwybodaeth y cynhelir cyfarfod nesaf y Gymdeithas ddydd Mercher, 2 Mawrth 2010, ym Mro Morgannwg.

Adroddodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau y byddai ail ran o'r cyfarfod uchod yn cynnwys lansiad o'r Wyl Dathlu Addysg Grefyddol a fyddai'n digwydd yn Ysgol Stanwell, Penarth gyda Archesgob Barry Morgan yn lansio'r Wyl yn swyddogol. Yn ystod y lansiad fe geir amrywiol weithgareddau gan ysgolion lleol a hyderir y byddai'r achlysur yn gyfle gwych i lansio'r gân "Hafan Ffydd".

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn a nodi :**

**(i) cynnwys cofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2010 yng Nghaerffili.**
**(ii) gwybodaeth ynglyn cyfarfod nesaf y Gymdeithas a gynhelir ddydd Mercher, 2 Mawrth 2011.**

**8. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG GWYNEDD 2009-10**

Cyflwynwyd i'r Aelodau yn ystod y cyfarfod Adroddiad Blynyddol terfynol CYSAG Gwynedd am y flwyddyn academaidd 2009-10, er gwybodaeth i'r Aelodau.

**Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad.**

**9 GOHEBIAETH**

Cyflwynwyd cylchgrawn Newyddion Addysg Grefyddol i'r Aelodau yn ystod y cyfarfod gan dynnu eu sylwat y ddwy erthygl isod a ymddangosai yn y cylchgrawn:

| | | |
|---|---|---|
| (i) | Seintiau 2010 | (Parchedig Robert Townsend) |
| (ii) | Teithio gyda Deinio Sant | (Julie Williams, Ysgol Cae Top) |

Yn gyntaf, cyfeiriwyd at erthygl Seintiau 2010 gan y Parchedig Robert Towsend a'r gwaith llwyddiannus a wnaethpwyd yn yr Eglwys Gadeiriol ym Mangor ar gyfer disgyblion ysgolion yr Eglwys yn Esgobaeth Bangor. Cyfeiriwyd ymhellach at waith caled y Cynghorau Ysgolion a'r disgyblion a oedd wedi llwyddo i gasglu £3,500 + i'w gyflwyno i'r elusen "Send a Cow", elusen sy'n gweithio gyda rhai o bobl dlotaf Affrica.

Cyfeiria'r ail erthygl gan Julie Williams, Cydlynydd Addysg Grefyddol, Ysgol Cae Top, Bangor, at y cyfle i ysgolion ddysgu mwy am Gristnogaeth trwy gyfrwng stori, gweithgareddau a phrofiadau crefyddol megis taith grefyddol a chyfres o gweithdai.

**PENDERFYNWYD: Gofyn i Glerc CYSAG longyfarch y Parch. Robert Townsend a Julie Williams am yr erthyglau diddorol a diolch iddynt am eu gwaith.**

**Dechreuodd y cyfarfod am 2:00 pm a daeth i ben am 3.15 pm**

**CADEIRYDD**